**Dychwelwch y ffurflen hon i:**

Canolfan Therapïau, Ysbyty Sirol Maldwyn (Ysbyty’r Drenewydd)

Ffordd Llanfair, Y Drenewydd, Powys, SY16 2DW

**Rhif ffôn:** 0845 840 1234 neu 01686 613 200

**E-bost:** therapies.hub.pow@wales.nhs.uk

Bydd yr atgyfeiriad yn cael ei brosesu, a chysylltir â chi i drefnu eich apwyntiad cyntaf.

Gellir trefnu eich apwyntiad naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy alwad fideo.

**Negeseuon atgoffa ar gyfer eich apwyntiad.** Gwnewch yn siŵr bod gennym eich rhif ffôn symudol cywir fel y gallwch dderbyn neges destun (gallwch optio allan o'r gwasanaeth ar unrhyw adeg). Gallwch hefyd ganslo neu ofyn am aildrefnu apwyntiad dros decst.

**Methu Apwyntiadau** Os na fyddwch yn mynychu eich apwyntiad heb roi gwybod i ni, mae’n bosibl y byddwch chi’n cael eich rhyddhau o’r gwasanaeth.

Gall **canslo apwyntiadau dro ar ôl tro** arwain at gael eich rhyddhau o'r gwasanaeth.

Mae’r ffurflen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

# Hunanatgyfeirio at Ffisiotherapi Cyhyrysgerbydol

**Mae’r ffurflen ar gael i’w chwblhau ar-lein ar dudalen Ffisiotherapi ar wefan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.**

## Oes angen Ffisiotherapydd arnoch chi?

Mae ffisiotherapi yn helpu pobl wedi’u effeithio gan anaf, salwch neu anabledd, trwy symud ac ymarfer corff, therapi llaw, addysg a chyngor.

Mae ffisiotherapyddion yn helpu pobl rheoli poen ac atal clefydau er mwyn cynnal ffordd iach o fyw.

Mae problemau sy’n dechrau heb anaf yn aml yn ymateb yn dda i ymarferion corff syml, ochr yn ochr â newidiadau yn eich ffordd o fyw, fel colli pwysau, ymarfer corff cyffredinol, rhoi’r gorau i ysmygu a thechnegau ymlacio.

Ystyriwch ddefnyddio’r cyngor a’r ymarferion sydd i’w gweld ar ein tudalen adnoddau Ffisiotherapi neu ar wefan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys neu wefan Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi.

https://biap.gig.cymru/gwasanaethau-ffisiotherapi/

www.csp.org.uk/public-patient

Dim ond cleifion sy'n dymuno cael ffisiotherapi ar gyfer problemau cyhyrysgerbydol y dylid defnyddio'r ffurflen hon (poen cefn / gwddf, poen yn y cymal, anafiadau meinwe meddal).

# Ffurflen Hunanatgyfeirio i Ffisiotherapi Cyhyrysgerbydol

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys / Powys Teaching Health Board

Enw Llawn (gan gynnwys teitl)

Cyfleiriad

Cod Post

Dyddiad Geni: ___/___/______Oedran (    )

Rhifau Ffôn Cyswllt Dewisol — Gawn ni adael neges?

1. ________________Cewch / Na chewch
2. ________________Cewch / Na chewch

Cyfeiriad E-bost ______________

Meddygfa ______________________

______________________

Staff BIAP: Ie ☐ Lleoliad ___________

Esboniwch pam eich bod chi'n atgyfeirio'ch hun i'r gwasanaeth ffisiotherapi?

Pa mor hir ydych chi wedi profi hyn? Diwrnodau ___ Wythnosau ___ Misoedd___ Blynyddoedd___

Sut wnaeth hyn ddechrau? *(Newydd ddechrau, anaf, wedi cwympo, problem tymor hir ac ati)*

Ydych chi wedi gweld eich Meddyg Teulu ar gyfer y broblem hon? **Ydw / Nac ydw**

Ydych chi i ffwrdd o'r gwaith/ ysgol neu'n methu â gofalu am ddibynnydd oherwydd y broblem hon? **Ydw / Nac ydw** *(Os ydych, rhowch fanylion)*

Beth fyddai canlyniad llwyddiannus ichi o fynychu ffisiotherapi?

Ydych chi wedi cael unrhyw brofion pelydr-X neu brofion eraill? **Ydw / Nac ydw**

Beth yw'ch dull dewisol cyfathrebu?

Oes angen cyfieithydd arnoch? **Oes / Nac oes** (os oes, rhowch fanylion)


**Os ydych chi'n atgyfeirio oherwydd poen yn y cefn /clunwst (sciatica), ydych chi wedi dioddef o unrhyw un o'r problemau canlynol ers i'ch poen ddechrau?**

| | YDW | NAC YDW |
|---|---|---|
| **Ymataliaeth y bledren, neu'n ei chael hi'n anodd pasio dŵr/ yn teimlo nad ydych chi'n gallu gwagio'ch pledren (mae'n rhaid ichi fforsio i wagio'ch pledren)** | ☐ | ☐ |
| **Colli rheolaeth ar y coluddyn (baeddu'ch hun)** | ☐ | ☐ |
| **Colli teimlad rhwng eich cluniau/colli teimlad wrth ddefnyddio papur toiled** | ☐ | ☐ |
| **Problemau rhywiol – colli teimlad neu fethu â chael codiad** | ☐ | ☐ |
| **Clunwst (sciatica) i'r DDWY goes – poen yn y coesau, pinnau bach/merwindod, gwendid** | ☐ | ☐ |

Os ydych chi wedi ateb **YDW** i unrhyw rai o'r symptomau hyn, a **NAD** ydych wedi cael asesiad meddygol ar gyfer hyn, mae'n hanfodol eich bod chi'n ceisio gofal meddygol **AR UNWAITH** (yr un diwrnod) trwy;

Ffonio 111, cael apwyntiad ar yr un diwrnod â Meddyg Teulu neu, trwy fynd i'ch **Adran Ddamweiniau ac**

Nodwch ar y lluniau lle rydych chi'n cael eich symptomau ar hyn o bryd



**Rhestrwch BOB UN o'r meddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd**

*Llofnod* ________________________ *Dyddiad* __________________